

Llawdriniaeth twll clo i dynnu'r bledren

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar sut a phryd y
gellir defnyddio
triniaethau newydd
mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo i dynnu'r bledren yn y GIG. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â chanser y bledren, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai tîm o glinigwyr sydd â phrofiad o reoli canser y bledren benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon, a dylai llawfeddygon sy'n cyflawni'r llawdriniaeth hon gael hyfforddiant arbennig.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y llawdriniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i storfa wybodaeth ganolog yng Nghofrestrfa Canser ac Archwiliad Adrannau Cymdeithas Llawfeddygon Wrolegol Prydain er mwyn gallu cadarnhau diogelwch y driniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

Sylwadau eraill gan NICE

Daeth y dystiolaeth a gyhoeddwyd gan gleifion â chanser y bledren, ond gallai'r driniaeth fod o fudd i gleifion eraill hefyd. Dylid cyfeirio cleifion a allai fod yn addas i unedau sydd â phrofiad yn y driniaeth ac o benderfynu pwy fyddai'n cael y budd mwyaf ohoni. Mae'r rhan fwyaf o lawfeddygon wedi rhoi'r gorau i ail-lunio'r bledren drwy ddefnyddio llawdriniaeth twll clo fel rhan o'r driniaeth hon.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer canser y bledren. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Llawdriniaeth twll clo i dynnu'r bledren

Yr enw meddygol am y math hwn o driniaeth yw 'cystectomi laparosgopig'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch meddyg i gael disgrifiad llawn. Gellir cynnig llawdriniaeth twll clo i dynnu'r bledren i gleifion sydd â chanser y bledren fel dewis amgen i lawdriniaeth gonfensiynol (agored).

Caiff y llawdriniaeth ei chyflawni fel arfer gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Mae'n cynnwys tynnu'r bledren gan ddefnyddio offer arbennig sy'n cael eu gosod drwy doriadau bach yn wal yr abdomen. Mewn rhai canolfannau, gall robot gynorthwyo'r llawfeddyg. Yna gellir cysylltu'r pibellau sy'n cludo wrin o'r arennau i'r bledren (yr wrethrâu) â darn bach o'r coluddyn a ddefnyddir i lunio agoriad artiffisial a elwir yn stoma (wrostoma) gyda bag casglu a wisgir y tu allan i'r corff, neu gellir creu pledren newydd gan ddefnyddio rhan o'r coluddyn. Efallai na fydd y triniaethau ychwanegol hyn yn defnyddio llawdriniaeth twll clo. Pan dynnir y bledren ar gyfer canser, gall fod yn angenrheidiol tynnu chwarren y brostat mewn dynion. Efallai y bydd angen i ferched gael tynnu'r groth a/neu'r ofarïau, yn dibynnu ar faint mae'r canser wedi lledaenu.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Disgrifir rhai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn fras yma. Edrychodd NICE ar 13 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod tynnu'ch pledren gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo yn opsiwn triniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth. Mae NICE wedi penderfynu hefyd fod angen mwy o wybodaeth am y driniaeth hon. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a all manylion eich triniaeth gael eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth o gwbl.*

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn un astudiaeth o 65 o gleifion, goroesodd 23 allan o 30 o gleifion a gafodd driniaeth twll clo a 28 allan o 35 o gleifion a gafodd driniaeth agored heb i'r canser ddychwelyd 38 mis a 46 mis ar ôl y llawdriniaeth, yn y drefn honno. Nododd astudiaeth o 84 o gleifion fod 70 wedi goroesi heb i'r afiechyd ddychwelyd o fewn 18 mis. Mewn astudiaeth arall o 42 o gleifion, ni fu farw unrhyw un o'r 20 claf a gafodd driniaeth twll clo a bu farw 1 o'r 21 o gleifion a gafodd driniaeth agored o ganlyniad i'r afiechyd o fewn 20 mis. Yn yr astudiaethau o 65 o gleifion a 42 o gleifion, roedd angen llai o leddfu poen ar y rhai a gafodd lawdriniaeth twll clo o gymharu â'r rhai a gafodd lawdriniaeth agored.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r prif ffactorau sy'n pennu llwyddiant yw'r angen am drallwysiad gwaed, yr amser rhwng llawdriniaeth a rhyddhau claf o'r ysbyty neu ddychwelyd i weithgaredd arferol, yr angen am boenladdwyr, meinwe sy'n glir o gelloedd canser yn agos at lle y tynnwyd y bledren, faint o nodau lymff a dynnwyd a goroesi am bum mlynedd heb ganser. Dywedodd un cynghorwr na chynhaliwyd y driniaeth am ddigon o amser na mewn digon o bobl i ddweud pa mor debygol y byddai'r canser yn dychwelyd i'r un rhan neu'n lledaenu i rannau eraill o'r corff.

Risgiau a phroblemau posibl

Edrychodd pedair astudiaeth ar faint o driniaethau twll clo yr oedd yn rhaid eu newid i lawdriniaeth agored yn ystod y llawdriniaeth. Bu'n rhaid i 4 allan o 220 o bobl newid eu llawdriniaeth. Mewn pedair astudiaeth yn cynnwys 213 o bobl a gafodd lawdriniaeth twll clo, datblygodd pump ohonynt gysylltiadau annormal (ffistwla) yn y corff (er enghraifft, rhwng y llwybr wrinol a'r coluddyn). Mewn dwy astudiaeth o 50 o bobl a gafodd y

driniaeth, cafodd ddau niwed i'r rhefr. Ymhlith y problemau eraill roedd crawniad yn yr abdomen (1 o bob 13 o gleifion), grawn crawniad yn gollwng drwy'r croen (1 o bob 33 o gleifion), anafiadau i rydweli (1 o bob 84), wrin yn gollwng (1 o bob 83), haint y llwybrau wrinol (8 allan o 84 o gleifion) a chleisio (3 allan o 84 o gleifion). Nodwyd bod gan un claf ganser yn y safle lle y gosodwyd un o'r offer yn ystod y driniaeth 10 mis ar ôl y llawdriniaeth.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd un cynghorwr fod problemau yn cynnwys anhawster wrth reoli colled gwaed, anafiadau neu rwystr i'r coluddyn, peidio â thynnu'r holl ganser a'r canser yn ymddangos yn y safle lle y gosodwyd offer yn ystod y llawdriniaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod cysylltiadau annormal (ffistwla) o'r coluddyn, llid leinin yr abdomen, ac amser llawdriniaeth hir ymhlith rhai o'r problemau posibl. Dywedodd un cynghorwr efallai nad yw'r dechneg twll clo mor drylwyr â llawdriniaeth agored, yn arbennig wrth dynnu nodau lymff.

Rhagor o wybodaeth am ganser y bledren

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi rhagor o wybodaeth a chymorth i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin cyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'cystectomi laparosgopig'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn sydd wedi'u targedu at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG181

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 181

ISBN 978-1-4731-7868-7

N1964 1P Feb 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.